



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Premier Care

**28 Wynnstay Road
Bae Colwyn
LL29 8NB**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/08/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gwir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun

Premier Care

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Premier Care Ltd
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	11 Ionawr 2023
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, a oedd yn ystyried meysydd o'r gwasanaeth a nodwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol yr oedd angen cymryd camau gweithredu â blaenoriaeth yn eu cylch. Ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried y themâu gofal a chymorth nac arweinyddiaeth a rheolaeth yn llawn.

Bu gwelliannau sylweddol o ran amserlennu a chynllunio ymweliadau â'r bobl ers yr arolygiad diwethaf. Mae hyn wedi arwain at adborth gwell gan y bobl, a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael gofal da ac yn cael y cymorth y maent am ei gael pan fydd ei angen arnynt.

Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys cyfarwyddiadau i'r staff gofal ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r staff yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i ddiwallu anghenion y bobl a chaiff prosesau recriwtio a fetio staff priodol eu dilyn. Mae Unigolyn Cyfrifol newydd wedi'i benodi. Mae'n ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn gweithio gyda'r rheolwr cofrestredig i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth ac yn cael ei ddatblygu ymhellach.

Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Caiff y cynlluniau personol eu hysgrifennu ar y cyd â'r bobl a'u perthnasau neu gynrychiolwyr ac maent yn nodi dewisiadau'r bobl ar sut y dylai'r staff gofal eu cefnogi. Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym fod y staff yn gwneud yr hyn y maent yn gofyn iddynt ei wneud yn ystod ymweliadau a'u bod yn eu cefnogi i gynnal eu sgiliau a'u galluoedd presennol yn ddiogel yn hytrach na chymryd drosodd yn llwyr. Mae staff y gangen a'r rheolwyr yn ymateb yn dda pan wneir cais am newidiadau i amseroedd ymweld rheolaidd neu pan fydd angen ymweliadau ychwanegol oherwydd newid mewn anghenion. Roedd y perthnasau y gwnaethom siarad â nhw a'r cofnodion gofal a welsom yn cadarnhau hyn.

Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal eu hiechyd a'u llesiant gan staff cyfarwydd sy'n eu hadnabod yn dda. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff gofal a swyddfa'r gangen yn helpu'r bobl i gael gafael ar weithwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol mewn modd amserol. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y rheolwr yn agored ac yn hawdd mynd ato. Dywedodd y mwyafrif o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gweld yr un staff gofal yn rheolaidd ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y gwasanaeth, a gwnaethant ddweud bod y staff yn "*brilliant*", "*kind and respectful*" a "*marvellous*". Yn ystod ein hymweliad â swyddfa'r gangen, gwelsom dystiolaeth bod staff y gangen yn ymgynghori â fferyllfeydd a gweithwyr gofal iechyd i sicrhau bod cleientiaid yn cael y feddyginiaeth neu'r cyngor clinigol sydd eu hangen arnynt. Dywedodd un unigolyn y gwnaethom siarad ag ef wrthym fod ganddo gydberthnasau da â'r staff gofal sy'n ei gefnogi ond y byddai'n hoffi pe bai'r staff gofal yn treulio mwy o amser yn siarad ag ef yn ystod ymweliadau. Gwnaethom drafod hyn gyda'r Unigolyn Cyfrifol a ddywedodd wrthym ei fod yn ystyried hyn fel rhan o welliannau parhaus i amseroedd a hyd galwadau.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod gan staff gofalgar sy'n codi materion a phryderon yn gyflym â'r rheolwyr. Mae'r rheolwyr yn sicrhau bod y staff gofal wedi cael hyfforddiant ac yn wybodus ynghylch eu cyfrifoldebau o ran amddiffyn y bobl y maent yn eu cefnogi drwy godi pryderon. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hyderus i godi pryderon eu hunain gyda'r staff gofal neu staff y gangen a'u bod yn cael ymateb amserol. Dywedodd un perthynas y gwnaethom siarad ag ef wrthym "*generally we are happy*" a dywedodd un unigolyn y gwnaethom siarad ag ef wrthym "*they look after me wonderfully*".

Gofal a Chymorth

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, felly nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Caiff y bobl eu hasesu gan y rheolwr neu aelod cymwysedig addas o'r staff cyn i'r rheolwr gadarnhau y gellir diwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Mae'r rheolwr yn sicrhau y caiff gwybodaeth fanwl ei chasglu gan y bobl, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr, a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Caiff cynlluniau personol unigol eu llunio gan ddefnyddio'r wybodaeth hon i roi cyfarwyddiadau i'r staff ar sut i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl. Gwelsom fod cynlluniau personol presennol yn cael eu trosglwyddo i system electronig newydd pan fyddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Gwelsom fod y cynlluniau personol newydd ar gyfer y bobl sydd wedi dechrau yn y gwasanaeth yn ddiweddar wedi'u personoli'n addas ac yn seiliedig ar gryfderau er mwyn nodi dewisiadau'r bobl a'r ffordd y maent am gael eu cefnogi yn ogystal â'u hanghenion.

Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd, ond pan fydd newidiadau i anghenion a dewisiadau'r bobl, rhaid i hyn gael ei adlewyrchu'n gyson ym mhob rhan o'u cynlluniau personol. Gwnaethom drafod hyn â'r Unigolyn Cyfrifol, a ddywedodd y bydd yn sicrhau bod hyn yn digwydd. Gwelsom fod asesiadau risg priodol ar waith ochr yn ochr â'r cynlluniau gofal.

Mae'r bobl yn cael gofal gan niferoedd priodol o staff hyfforddedig sy'n dilyn y cynlluniau gofal a ddarparwyd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt ac y maent am ei gael gan y staff gofal a'u bod yn gweld yr un staff yn rheolaidd. Caiff hyn ei gefnogi gan y cofnodion a welsom o ymweliadau gofal; roedd y rhain yn dangos bod pob tasg gofal a nodwyd yn y cynlluniau personol wedi cael eu cwblhau. Dywedodd y perthnasau wrthym fod staff y gangen a'r gwasanaeth ar alwad yn ymateb yn dda pan fyddant yn siarad â nhw. Gwnaethant ddweud wrthym fod y gwasanaeth yn ymateb i adborth ac yn addasu amseroedd galwadau a drefnwyd i ddiwallu anghenion y bobl a bodloni eu dewisiadau os byddant yn newid.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau cadarn ar waith ar gyfer rheoli, storio a rhoi meddyginiaethau. Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau rheoli rheolaidd a hapwiriadau a gwiriadau cymhwysedd gan y rheolwyr. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant a'u bod yn dilyn polisïau a gweithdrefnau darparwr y gwasanaeth ar gyfer storio a rhoi meddyginiaethau. Gwelsom dystiolaeth bod y staff gofal yn rhoi gwybod i swyddfa'r gangen mewn modd amserol os bydd unrhyw faterion mewn perthynas â rhoi meddyginiaethau, a bod y rheolwr yn sicrhau datrysiad amserol drwy gydgyssylltu â'r fferyllfeydd lleol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ôl yr angen.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, felly nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau llywodraethu priodol ar waith i sicrhau y caiff y gwasanaeth ei redeg yn ddidrafferth. Mae Unigolyn Cyfrifol newydd wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer y gwasanaeth hwn ac mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud ers yr arolygiad diwethaf. Mae cofnodion yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â swyddfa'r gangen yn rheolaidd ac yn siarad â'r bobl a'r staff. Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau llywodraethu a goruchwylio priodol ar waith ar gyfer y gwasanaeth. Mae adroddiad yr Unigolyn Cyfrifol i ddarparwr y gwasanaeth ar ansawdd y gofal yn dangos y gwrandewir ar adborth gan y bobl a'r staff. Gwelsom fod data a gesglir ar ansawdd y gofal a ddarperir yn cael eu dadansoddi'n rheolaidd a bod y rheolwyr yn cynllunio camau gweithredu dilynol i gefnogi gwelliannau i'r gwasanaeth a'i ddatblygu.

Ceir strwythur rheoli haenog rhwng yr Unigolyn Cyfrifol a rheolwr y gangen, a chynhelir cyfarfodydd rheoli rheolaidd â'r Unigolyn Cyfrifol i fonitro cynnydd a chanlyniadau yn sgil cynllunio camau gweithredu. Gwelsom archwiliadau rheoli rheolaidd o feysydd fel cydymffurfiaeth staff â hyfforddiant ac amseroedd galwadau. Caiff canlyniadau archwiliadau eu trafod mewn cyfarfodydd rheoli a bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn adrodd yn ôl i ddarparwr y gwasanaeth yn rheolaidd. Mae gwelliannau i'r trefniadau goruchwylio wedi arwain at adborth gwell gan y bobl. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y gwasanaeth y maent yn ei gael, ac roedd hyn hefyd wedi'i adlewyrchu yn y cofnodion o ganmoliaethau a gwelsom.

Gwelsom welliannau sylweddol mewn perthynas â chynllunio ac amserlennu ymweliadau gofal ar gyfer y bobl. Gwnaethom edrych ar yr amserlenni ymweliadau ar gyfer y pythefnos cyn ein hymweliad, yr wythnos y gwnaethom ymweld â'r gwasanaeth, a'r pythefnos dilynol. Gwelsom gyfnodau addas o amser ar gyfer teithio rhwng ymweliadau gofal unigol a seibiannau yn yr amserlenni ar gyfer aelodau unigol o'r staff. Dim ond un neu ddau ymweliad oedd yn gorgyffwrdd neu wedi'u trefnu ar yr un pryd dros y cyfnod cyfan, ac roedd hynny o ganlyniad i gyflenwi ar fyr rybudd yn achos absenoldeb staff oherwydd salwch. Mae'r cyfnod o amser y mae'r staff gofal yn ei dreulio mewn galwadau wedi gwella, a dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym ei fod yn gweithio gyda'r staff gofal i wella hyn ymhellach.

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau y caiff arferion recriwtio diogel eu dilyn, gan gynnwys proses fetio drylwyr ar gyfer aelodau newydd o staff, a gwiriadau fetio parhaus a chofrestriad â'r cyrff perthnasol ar gyfer aelodau presennol o'r staff. Gwelsom adborth gan y

staff gofal yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwyr. Mae cofnodion cyfarfodydd tîm yn dangos y cânt eu cynnal yn rheolaidd a'u bod yn cynnwys adborth cadarnhaol ochr yn ochr â meysydd i'w gwella. Yn ystod ein hymweliad, roedd staff y gangen mewn cysylltiad agos â'r staff gofal drwy'r dydd, gan roi cymorth iddynt gydag unrhyw faterion wrth iddynt godi. Mae cofnodion y staff yn dangos eu bod yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i ddiwallu anghenion y bobl a bod cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant yn cael ei monitro'n agos.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
8	Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal yn ddigonol. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod galwadau'n cael eu hamserlennu'n effeithiol fel bod modd eu cyflawni'n brydlon, caniatáu amser ar gyfer yr anghenion gofal y cytunwyd arnynt, a sicrhau eu bod yn para am y cyfnod amser a gomisiynwyd.	Cyflawnwyd

41	Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod amser teithio ac amser gofal digonol yn cael ei neilltuo a'i amserlennu i'r staff.	Cyflawnwyd
----	---	------------

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 16/10/2023